RP1 GB: Cais i gofrestru plaid wleidyddol ym Mhrydain Fawr

Y Comisiwn Etholiadol

Pwysig: dylid darllen y nodiadau esboniadol atodol cyn cwblhau'r ffurflen hon.

1 Manylion eich plaid wleidyddol

Enw'r blaid	Saesneg	
	Cymraeg	
	Iaith arall	
	Cyfieithiad Saesneg	
Cyfeiriad (pencadlys y blaid neu gyfeiriad gohebiaeth os nad oes pencadlys)		
Rhif ffôn		
Rhif ffacs		
Cyfeiriad e-bost		
Cyfeiriad gwefan		

2 Swyddogion eich plaid

Arweinydd y blaid

Teitl/enw	
Cyfeiriad	
Rhif ffôn	

Rhif ffacs	
Cyfeiriad e-bost	

Os yw'n arweinydd am ddiben penodol, nodwch hynny	

Swyddog enwebu

Teitl/enw	
Cyfeiriad	
Rhif ffôn	
Rhif ffacs	
Cyfeiriad e-bost	

Trysorydd

Teitl/enw	
Cyfeiriad	
Rhif ffôn	
Rhif ffacs	
Cyfeiriad e-bost	

Swyddog ymgyrchu (os yw'n berthnasol)

Teitl/enw

Cyfeiriad

Rhif ffôn

Rhif ffacs

Cyfeiriad e-bost

Swyddog arall (os yw'n berthnasol)

Teitl/enw

Cyfeiriad

Rhif ffôn

Rhif ffacs

Cyfeiriad e-bost

3 Eich disgrifiadau ac arwyddluniau

Disgrifiadau (chwe gair ar y mwyaf)

1 Disgrifiad

Cyfieithiad

2 Disgrifiad

Cyfieithiad

3 Disgrifiad

Cyfieithiad

4	Disgrifiad	
	Cyfieithiad	
5	Disgrifiad	
	Cyfieithiad	
6	Disgrifiad	
	Cyfieithiad	
7	Disgrifiad	
	Cyfieithiad	
8	Disgrifiad	
	Cyfieithiad	
9	Disgrifiad	
	Cyfieithiad	
10	Disgrifiad	
	Cyfieithiad	
11	Disgrifiad	
	Cyfieithiad	
12	Disgrifiad	
	Cyfieithiad	

Arwyddluniau

Y nifer a gyflwynir ar ddalen ar wahân (os yw'n berthnasol)	

4 Datganiadau (rhaid iddynt gael eu llofnodi gan bob swyddog cofrestredig)

Mae'r blaid a enwir uchod yn gwneud cais i gael ei chofrestru yn unol â gofynion Rhan II o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Mae'r blaid a enwir uchod yn bwriadu ymladd un neu fwy o etholiadau perthnasol ym Mhrydain Fawr (na fydd yn gyfyngedig i etholiadau plwyf (Lloegr) neu gymunedol (Cymru)) ac yn unol â hynny mae'n gwneud cais i gael ei chofrestru yn y rhan(nau) canlynol o gofrestr Prydain Fawr. Ticiwch:

Lloegr ☐ Yr Alban ☐ Cymru ☐

Mae'r blaid wedi rhoi ar waith y trefniadau priodol i gydymffurfio â'r rheoliadau sy'n rheoli gweithgarwch etholiadol ac ariannol pleidiau gwleidyddol.

Rwyf yn datgan drwy hyn bod gennyf yr awdurdod i lofnodi'r cais hwn ar ran y blaid a enwir uchod.

Arweinydd y blaid

Llofnodwyd _____ Printiwch yr enw _____

Dyddiad _____

Swyddog enwebu

Llofnodwyd _____ Printiwch yr enw _____

Dyddiad _____

Trysorydd

Llofnodwyd _____ Printiwch yr enw _____

Dyddiad _____

Swyddog ymgyrchu (os yw'n berthnasol)

Llofnodwyd _____ Printiwch yr enw _____

Dyddiad _____

Swyddog arall (os yw'n berthnasol)

Llofnodwyd _____ Printiwch yr enw _____

Dyddiad _____

5 Datganiad o asedion a rhwymedigaethau

Mae'n rhaid i'r trysorydd wneud datganiad ynglŷn â'r asedion a'r rhwymedigaethau a ddelir gan y blaid.

Os bydd gan eich plaid werth dros £500 o asedion neu rwymedigaethau, rhaid i chi roi cofnod ohonynt i'r Comisiwn Etholiadol. Os na fydd asedion a rhwymedigaethau eich plaid dros y trothwy, ni fydd angen i chi roi cofnod ohonynt. Yn y ddeddfwriaeth, cyfeirir at y trothwy fel yr 'amod asedion/rhwymedigaethau'. Bodlonir yr amod os bydd gan blaid asedion a rhwymedigaethau sy'n werth £500 neu lai.

Gweler ein canllawiau am ragor o fanylion ynghylch gwneud cofnod lle bo hynny'n ofynnol.

Ticiwch yr hyn sy'n berthnasol:

Rwy'n datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, y bodlonir yr amod asedion/rhwymedigaethau mewn perthynas â'r blaid [mae cyfanswm gwerth yr asedion yn llai na £500 ac mae cyfanswm y rhwymedigaethau yn llai na £500] ☐

Rwy'n datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, na fodlonir yr amod asedion/rhwymedigaethau mewn perthynas â'r blaid ac felly fod angen darparu cofnod o asedion a rhwymedigaethau [mae cyfanswm gwerth yr asedion a/neu gyfanswm y rhwymedigaethau a ddelir yn fwy na £500] ☐

Cofnod o asedau a rhwymedigaethau wedi'i amgáu?	Ydy / Nac Ydy	Dilëwch yn ôl yr angen

Trysorydd

Llofnod		Printiwch eich enw	
Dyddiad			

6 Gwybodaeth ychwanegol

Wedi amgáu'r ffi o £150 na chaiff ei had-dalu?	Ydw / Nac ydw	Dilëer fel y bo'n gymwys
Wedi amgáu copi o gyfansoddiad y blaid?	Ydw / Nac ydw	Dilëer fel y bo'n gymwys
Wedi amgáu copi o'r cynllun ariannol?	Ydw / Nac ydw	Dilëer fel y bo'n gymwys
Diwedd y flwyddyn ariannol		(DD/MM)

7 Unedau cyfrifyddu

Dim ond os yw eich plaid yn bwriadu cael unedau cyfrifyddu sy'n rheoli eu cyllid ar wahân y dylid cwblhau'r adran hon. Nid oes angen cofrestru trefniadaeth ganolog eich plaid fel uned gyfrifyddu.

Nifer yr unedau cyfrifyddu			
Wedi amgáu'r manylion?	Ydw / Nac ydw	Dilëer fel y bo'n gymwys	

Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais wedi'i chwblhau i:
Party Registration Team
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol yn unig

Dyddiad		Gwiriwyd gan	
Dyddiad y gwiriad cydymffurfio		Gwiriwyd gan	
Cymeradwywyd/Gwrthodwyd		Dyddiad	
Dyddiad cofnodi yn y gronfa ddata		Gwiriwyd gan	
Rhif cyfeirnod y blaid			

Datganiad Preifatrwydd

Dim ond er mwyn cefnogi ein swyddogaethau statudol y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol, nac unrhyw wybodaeth bersonol y gallwch ei rhoi am bobl eraill, ag unrhyw unigolyn oni bai bod yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith.

Sail gyfreithiol dros gasglu'r wybodaeth yn y ffurflen hon yw bod ei hangen arnom er mwyn cyflawni tasgau er budd y cyhoedd ac arfer yr awdurdod swyddogol a roddir i'r Comisiwn Etholiadol fel y nodir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig a deddfwriaeth etholiadol arall.

Caiff rhywfaint o'r wybodaeth a gesglir yn y ffurflen hon ei dosbarthu'n ddata personol categori arbennig. Rydym yn prosesu'r wybodaeth hon er budd sylweddol y cyhoedd, sy'n seiliedig ar gyfraith y DU. Er mwyn prosesu'r math hwn o wybodaeth, mae'n rhaid bod gan y Rheolydd Data ddogfen bolisi berthnasol sy'n nodi'r modd yr ymdrinnir â'r wybodaeth hon.

Y Comisiwn Etholiadol yw'r Rheolwr Data a gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn dataprotection@electoralcommission.org.uk.

Gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd yn electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd i gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn prosesu data personol.

Nodiadau esboniadol ar gwblhau ffurflen RP1 (Prydain Fawr)

Gweler ein canllawiau, ‘Sut i gofrestru eich plaid wleidyddol’, sydd ar gael yn electoralcommission.org.uk/cy/sut-i-gofrestru-eich-plaid-wleidyddol, cyn llenwi’r ffurflen hon. Dylid ond defnyddio’r ffurflen hon i gofrestru plaid ar gofrestr o bleidiau Prydain Fawr.

Mae pob un o’r nodiadau canlynol yn cyfateb i adran wedi’i rhifo ar ffurflen RP1 (Prydain Fawr).

1 Manylion eich plaid wleidyddol

Enw'r blaid

Nodwch yr enw rydych am ei gofrestru ar gyfer eich plaid. Os yw enw'r blaid mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg, dylid rhoi cyfieithiad Saesneg cywir hefyd. Os bydd enw plaid yn Gymraeg, nid oes angen rhoi cyfieithiad Saesneg, ond os rhoddir cyfieithiad, caiff yr enw Cymraeg a'r cyfieithiad Saesneg eu cofrestru ar y cyd ar gyfer y blaid. Ceir rheolaethau sy'n rheoli pa enwau ar bleidiau y gellir eu cofrestru, sydd ar gael yn ein canllawiau ar gofrestru'n blaid wleidyddol, 'Sut i gofrestru eich plaid wleidyddol’.

Cyfeiriad

Dylid nodi cyfeiriad pencadlys y blaid. Os nad oes gan y blaid bencadlys, dylid nodi cyfeiriad y gellir anfon gohebiaeth iddo. Noder mai hwn yw'r cyfeiriad y caiff pob gohebiaeth ei hanfon iddo, a chaiff ei gyhoeddi yn y gofrestr gyhoeddus hyd yn oed os mai cyfeiriad cartref unigolyn ydyw. Ni chaiff manylion rhifau ffôn yn ystod y dydd, rhifau ffacs na chyfeiriadau e-bost eu cyhoeddi ar y gofrestr gyhoeddus.

2 Swyddogion eich plaid

Mae'n rhaid i chi gael o leiaf dau unigolyn fel swyddogion y blaid. Os mai'r un unigolyn yw'r arweinydd, y swyddog enwebu a'r trysorydd, dylid cofrestru swyddog ymgyrchu neu swyddog ychwanegol.

Rhowch enwau llawn a chyfeiriadau cartref y bobl rydych am eu cofrestru'n arweinydd, swyddog enwebu a thrysorydd y blaid. Gall pleidiau hefyd ddewis cofrestru swyddog ymgyrchu (ni ellir rhoi'r swydd hon i'r unigolyn rydych am ei gofrestru'n drysorydd y blaid).

Noder na chaiff cyfeiriad eich cartref ei gynnwys ar y gofrestr a gyhoeddir o bleidiau ac felly ni fydd ar gael i bobl sy'n edrych ar y gofrestr (oni chaiff eich cyfeiriad ei gyhoeddi fel cyfeiriad y pencadlys).

Pwysig: mae'n ofynnol i swyddogion cofrestredig y pleidiau fodloni gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf Pleidiau, Etholiadau a Refferenda 2000. Dylech ddarllen ein canllawiau ar gofrestru plaid wleidyddol cyn cytuno i fod yn swyddog cofrestredig.

3 Eich disgrifiadau ac arwyddluniau

Disgrifiadau

Gallwch gofrestru hyd at 12 o ddisgrifiadau gyda'r Comisiwn. Yr un yw'r rheolau ar gyfer disgrifiadau â'r rhai ar gyfer enwau. Nid oes raid i chi gofrestru unrhyw ddisgrifiadau, ond os na wnewch hynny, dim ond o dan union enw cofrestredig y blaid y bydd eich ymgeiswyr yn gallu sefyll.

Gall y disgrifiadau ar gyfer pleidiau a gofrestrir i ymladd etholiadau yng Nghymru fod yn Gymraeg neu yn Saesneg. Nid oes angen rhoi cyfieithiad, ond os rhoddir cyfieithiad i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg, caiff y fersiynau Cymraeg a Saesneg eu cofrestru ar y cyd fel y disgrifiad. Lle y rhoddir fersiwn Cymraeg a Saesneg o ddisgrifiad, mae hyn yn cyfrif fel un disgrifiad yn erbyn y terfyn o 12 o ddisgrifiadau.

Mae rhai pleidiau yn enwebu ymgeiswyr ar y cyd ag un neu fwy o bleidiau eraill. Felly gall pleidiau gofrestru disgrifiad ar y cyd i'w ddefnyddio gan ymgeisydd sy'n sefyll ar ran y ddwy blaid neu bob plaid ar y cyd ac ni ddylai fod yn fwy na chwe gair o hyd. Dim ond un disgrifiad y gellir ei gofrestru gan unrhyw gyfuniad o bleidiau a rhaid iddo gael ei awdurdodi gan swyddogion enwebu'r ddwy blaid neu bob plaid dan sylw.

Rydym yn fwy na pharod i roi canllawiau ar ddisgrifiadau posibl cyn i geisiadau gael eu cyflwyno.

Arwyddluniau

Gallwch gofrestru hyd at dri arwyddlun. Nodwch yn y blwch perthnasol sawl arwyddlun y mae'r blaid yn bwriadu ei gofrestru.

Dylech amgáu dalen atodol ar wahân yn dangos pob arwyddlun. Dylai arwyddluniau fod mewn du a gwyn yn unig, heb unrhyw liw nag arlliw llwyd, a dylent ffitio o fewn ffrâm sgwâr 5cm. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud atgynhyrchiad da o'r arwyddlun, y gellir ei atgynhyrchu mewn du a gwyn ar bapurau pleidleisio. Gallech hefyd gynnwys disgrifiad o bob arwyddlun os byddwch yn dymuno.

4 Datganiadau

Nodwch a ydych am i'r blaid gael ei chofrestru yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Dim ond yn y gwledydd lle y mae wedi'i chofrestru y gall y blaid ymladd etholiadau. Os bydd y blaid yn dewis peidio â chofrestru mewn un neu fwy o rannau o Brydain Fawr, gall y Comisiwn Etholiadol gofrestru plaid arall gydag enw tebyg mewn rhan neu rannau eraill o Brydain Fawr.

Llofnodion

Cynghorir pob swyddog plaid i ddarllen ein canllawiau ar gofrestru'n blaid wleidyddol i gael manylion goblygiadau cofrestru'n blaid wleidyddol a'i gyfrifoldeb fel swyddog plaid, cyn llofnodi'r cais.

Rhaid i bob un o swyddogion y blaid a nodir yn adran 2 lofnodi'r cais.

5 Datganiad o asedion a rhwymedigaethau

Cadarnhewch p'un a yw'r blaid yn bodloni, neu ddim yn bodloni, yr amod asedion/rhwymedigaethau ac a oes cofnod o asedion a rhwymedigaethau wedi'u cyflwyno gyda'r cais.

Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Comisiwn Etholiadol wneud copi o'r cofnod fel y gall y cyhoedd ei archwilio. Felly, caiff pob cofnod ei gyhoeddi ar y gofrestr gyhoeddus os caiff eich cais ei dderbyn. Ni fyddwn yn cyhoeddi unrhyw ddata personol yn unol â chyfraith diogelu data.

Llofnod

Cynghorir y trysorydd i ddarllen ein canllawiau er mwyn cael gwybodaeth bellach am wneud datganiad o asedion a rhwymedigaethau cyn llofnodi'r adran hon.

6 Gwybodaeth ychwanegol

Defnyddiwch y rhestr wirio hon i sicrhau eich bod wedi amgáu'r ffi gwneud cais o £150 na chaiff ei had-dalu, copi o'ch cyfansoddiad a'ch cynllun ariannol drafft. Nodwch na ellir derbyn ceisiadau nad ydynt yn cynnwys y ffi berthnasol, y cyfansoddiad na'r cynllun ariannol drafft. Gellir cael canllawiau ar gyfansoddiadau a chynlluniau ariannol yn ein canllawiau ar gofrestru'n blaid wleidyddol. Caiff cynllun ariannol drafft ar gyfer plaid nad oes ganddi swyddog ymgyrchu nag unedau cyfrifyddu ei gynnwys yn y ddogfen ganllawiau. Os ydych am gofrestru swyddog ymgyrchu neu unedau cyfrifyddu, cysylltwch â ni i gael copi o'r cynllun ariannol drafft priodol.

7 Unedau cyfrifyddu

Dim ond os yw eich cyfansoddiad yn caniatáu i adrannau penodol o'r blaid reoli eu materion ariannol eu hunain ar wahân i drefniadaeth ganolog y blaid y dylid cwblhau'r rhan hon o'r ffurflen. Bydd angen nodi pob adran sy'n annibynnol yn ariannol fel 'uned gyfrifyddu', ond nid oes angen cynnwys manylion pencadlys y blaid fel uned gyfrifyddu. (Cyfeiriwch at ein canllawiau ar gofrestru'n blaid wleidyddol i gael rhagor o wybodaeth ar unedau cyfrifyddu.) Nodwch nifer yr unedau cyfrifyddu rydych am eu cofrestru. Ar gyfer pob uned gyfrifyddu, defnyddiwch Atodiad A i roi enw'r sefydliad a'r math o sefydliad (e.e. plaid etholaethol), a chyfeiriad pencadlys yr uned gyfrifyddu, neu'r cyfeiriad y dylid anfon gohebiaeth iddo os nad oes pencadlys (nodwch y caiff y cyfeiriad hwn ei gyhoeddi yn y gofrestr gyhoeddus hyd yn oes os yw'n gyfeiriad cartref unigolyn). Yn olaf, rhowch enw a chyfeiriad yr unigolyn a benodir yn drysorydd yr uned gyfrifyddu, a'r unigolyn rydych am ei gofrestru'n ail swyddog yr uned gyfrifyddu. Mae'n rhaid rhoi'r rolau hyn i ddau unigolyn gwahanol.

Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais wedi'i chwblhau i:

Party Registration Team
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1928
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost:
partyreg@electoralcommission.co.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk

Pwysig: wrth ddelio â cheisiadau, mae'r Comisiwn yn ystyried gofynion deddfwriaeth mynediad cyfartal, gan gynnwys Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 a Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1985.

Atodiad A: Nifer yr unedau cyfrifyddu

Y Comisiwn Etholiadol

Pwysig: Rhestrwch yr unedau cyfrifyddu yn nhrefn yr wyddor mewn categorïau unigol (e.e. etholaeth, adrannau merched, grwpiau rhanbarthol) a'u rhifo yn eu trefn (h.y. 1,2,3) yn y blychau.

Defnyddiwch ddalenni parhad yn ôl yr angen.

1 Manylion am unedau cyfrifyddu

Rhif yr uned gyfrifyddu (e.e. 1, 2, 3)	
Enw'r uned gyfrifyddu	
Math o uned gyfrifyddu	
Cyfeiriad (pencadlys y blaid neu gyfeiriad gohebiaeth os nad oes pencadlys)	
Rhif ffôn	
Rhif ffacs	
Cyfeiriad e-bost	
Cyfeiriad gwefan	

2 Swyddogion eich plaid

Enw trysorydd yr uned gyfrifyddu

Teitl/enw	
Cyfeiriad	

Rhif ffôn	
Rhif ffacs	
Cyfeiriad e-bost	

Enw'r ail swyddog cofrestredig

Teitl/enw	
Cyfeiriad	
Rhif ffôn	
Rhif ffacs	
Cyfeiriad e-bost	